**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

# Adolygiad pellach o ddatblygiadau yn narpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru: crynodeb ac argymhellion mewn fersiwn Cymraeg clir

Medi 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Children.&YoungPeopleCommittee@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Rydym yn grŵp o bump Aelod Cynulliad sy'n gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Pobl Cymru sydd wedi pleidleisio drosom i wneud hyn. Ein gwaith ni yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru, sef y bobl sy'n gwneud penderfyniadau am bethau a phenderfyniadau am sut i wario arian yn gwneud eu gwaith yn iawn. Enw ein grŵp yw'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

## Aelodau'r Pwyllgor



Helen Mary Jones (Cadeirydd)



Angela Burns



Eleanor Burnham



Sandy Mewies



Joyce Watson

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Geirfa** | **tudalen 1** |
| **Neges gan y Cadeirydd** | **tudalen 3** |
| **Argymhellion y Pwyllgor** | **tudalen 5** |
| **1. Cyflwyniad a Chefndir** | **tudalen 9** |
| **2. Materion Allweddol** | **tudalen 10** |
| Cynnydd o ran gweithredu model eirioli Llywodraeth Cymru | tudalen 10 |
| Model comisiynu rhanbarthol Llywodraeth Cymru | tudalen 11 |
| Annibynniaeth darparwyr eiriolaeth | tudalen 12 |
| Gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy’n agored i niwed | tudalen 13 |
| Pwysau ariannol a’r effaith ar eiriolaeth i bawb | tudalen 14 |
| Prynu heb gontract | tudalen 15 |
| Arolygu a rheoleiddio | tudalen 17 |
| Y Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol a’r llinell gyngor - Meic | tudalen 18 |
| Y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol | tudalen 19 |
| **Tystion** | **tudalen 20** |

# Geirfa

- **Cadeirydd:** Cadeirydd y Pwyllgor yw'r aelod y mae'r Pwyllgor wedi'i ethol i siarad ar ei ran. Ni all wneud penderfyniadau ar ran yr aelodau eraill na dweud wrth y Pwyllgor beth i'w wneud.
- **Eiriolwr**: rhywun a fydd yn siarad ar ran rhywun arall i fynegi barn y person hwnnw.
- **Gwasanaethau eirioli:** gwasanaeth y gall plant a phobl ifanc ei ddefnyddio i gael eiriolwr.
- **Awdurdod lleol:** cyngor lleol a gaiff ei arwain gan grŵp o gynghorwyr sydd wedi cael eu hethol i wneud penderfyniadau o ran sut i wario arian yn yr ardal leol.
- **Llywodraeth leol:** dyma sut mae cyfeirio at yr holl awdurdodau lleol fel grŵp.
- **Mewn gofal:** pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael lle newydd i fyw gan yr awdurdod lleol am na all aros gartref, efallai y bydd y plentyn neu'r person ifanc 'mewn gofal'.
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:** sefydliad sy'n annog gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.
- **Estyn:** sefydliad sy'n annog gwell addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

- **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru:** sefydliad sy'n annog gwell gofal iechyd yng Nghymru.
- **Canllawiau Statudol:** cyngor sy'n esbonio sut i wneud rhywbeth mewn ffordd sy'n dilyn y gyfraith.
- **Llywodraeth Cymru:** yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau.

## Neges gan y Cadeirydd

Mae eiriolaeth yn bwysig iawn i blant a phobl ifanc. Weithiau, gall fod yn anodd iawn i blant a phobl ifanc siarad â phobl mewn awdurdod a dweud wrthynt beth yw eu syniadau, eu meddyliau a'u hanghenion. Gall rhai plant a phobl ifanc ofyn i'w Mam, Dad neu athrawon am help i fynegi barn, ond efallai y bydd angen help ar rai eraill i godi eu llais.

Dyna pam mae angen i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau lleol gynnig gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Os nad oes gan blant a phobl ifanc neb i'w helpu i ddweud eu dweud, efallai na fydd ganddynt unrhyw reolaeth dros yr hyn sy'n effeithio ar eu bywydau, pethau fel lle i fyw a gyda phwy y byddant yn byw.

Ond mae eiriolwyr yn gwneud mwy na siarad ar ran plentyn neu berson ifanc. Maent hefyd yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i siarad drosto'i hun fel y gall fod yn fwy hyderus yn y dyfodol.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd gan Lywodraeth Cymru lai o arian i'w wario nag erioed o'r blaen, ond rydym yn gobeithio y bydd yn gweld pa mor bwysig yw gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc

ac yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl ar eu cyfer.

**Helen Mary Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor clir am ddarparu gwasanaethau eirioli gan ddefnyddio'r model newydd. Dylid rhoi'r cyngor hwn fel canllawiau statudol. (tudalen 10)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y model comisiynu cenedlaethol yn hytrach na'r model comisiynu rhanbarthol. Fodd bynnag, ni ddylai Llywodraeth Cymru roi'r gorau i geisio cael y model rhanbarthol i weithio tra mae'n meddwl am y ffordd arall o brynu gwasanaethau eirioli. (tudalen 12)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod yn gofyn i blant a phobl ifanc pa mor dda a pha mor annibynnol yw'r gwasanaethau eirioli. (tudalen 13)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pwy ddylai gael eiriolwyr os yw am gael un. (tudalen 13)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod awdurdodau sy'n gofalu am blant a phobl ifanc ddweud wrth y plant a'r bobl ifanc hynny y gallant gael eiriolwr os ydynt am gael un. (tudalen 14)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir o ran pa blant a phobl ifanc ddylai gael cynnig gwasanaethau eirioli, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru yn cael yr un math o wasanaeth. (tudalen 15)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, er mai gwasanaethau eirioli ar gyfer y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed sydd fwyaf pwysig. (tudalen 15)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrth awdurdodau lleol nad yw prynu heb gontract yn dderbyniol ac mai dim ond ar achlysuron anarferol iawn y dylid gwneud hyn. (tudalen 16)

**Argymhelliad 9.** Wrth ystyried a fyddai model comisiynu cenedlaethol yn well na model rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried hefyd

a fyddai model comisiynu cenedlaethol yn atal yr angen i brynu heb gontract. (tudalen 16)

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gefnogi hunan-eirioli ac eirioli ar ran cymheiriaid fel y gall plant a phobl ifanc ddysgu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn ystod eu hoes. (tudalen 17)

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod arolygon yn cydnabod bod y berthynas sydd gan eiriolwyr â phlant a phobl ifanc yn un bwysig wrth feithrin sgiliau hunan-eirioli ac eirioli ar ran cymheiriaid. Dylai'r arolygwyr ofyn i blant a phobl ifanc beth yw eu barn am wasanaethau eirioli a'u profiadau ohonynt. Dylai'r arolygiadau gael eu harwain gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a dylai'r Arolygiaeth gydweithio ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. (tudalen 18)

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn canfod pa fath o wasanaethau eirioli sydd ar gael i blant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Mae'r Pwyllgor yn credu mai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ddylai wneud y gwaith hwn. (tudalen 19)

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir beth fydd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn ei wneud a beth fydd ei gyfrifoldebau, a beth fydd uned eiriolaeth Llywodraeth Cymru yn ei wneud a beth fydd ei chyfrifoldebau.

(tudalen 19)

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

Trafododd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y gwasanaethau eirioli yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2007.  Trafodwyd y ffordd roedd y gwasanaethau'n gweithio ac awgrymwyd ffyrdd y gallai Llywodraeth y Cynulliad wella'r gwasanaethau.

Cytunodd Llywodraeth Cymru â llawer o'n hawgrymiadau, a elwir yn argymhellion, a chytunodd i newid y ffordd y mae'n darparu'r gwasanaeth.

Ym mis Mai 2009, edrychwyd ar beth roedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wella gwasanaethau eirioli. Gwelwyd yr adeg honno bod mwy o bethau y gallai fod yn eu gwneud i wella'r gwasanaethau felly gwnaethom fwy o argymhellion.

Ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2010, cawsom sgwrs arall â Llywodraeth Cymru i weld a oedd y gwasanaethau eirioli yn well. Cawsom sgwrs â llawer o bobl eraill hefyd a oedd yn gwybod am wasanaethau eirioli yng Nghymru neu a oedd wedi'u defnyddio a gofynnwyd iddynt a oedd y gwasanaethau yn well erbyn hyn, yn eu barn hwy.

Hoffem ddiolch i'r holl bobl a ysgrifennodd atom neu a siaradodd â ni am wasanaethau eirioli.

# 2. Materion Allweddol

**Cynnydd o ran gweithredu model eirioli Llywodraeth Cymru**

Ym mis Mawrth 2008, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod am newid y ffordd roedd yn darparu gwasanaethau eirioli. Roedd y gwasanaeth newydd am fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc, yn hytrach na dim ond y rhai sydd mewn gofal.

Gwelwyd nad oedd llawer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r gwasanaeth hyd yn hyn. Dywedodd un elusen o'r enw Plant yng Nghymru wrthym ei bod yn credu y dylai'r gwasanaeth newydd fod wedi bod ar gael yn llawer cyflymach.

Roedd y Pwyllgor yn teimlo efallai bod y newidiadau wedi bod yn araf am nad oedd Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth yr awdurdodau lleol sut y dylent fod yn darparu gwasanaethau eirioli gan ddefnyddio'r model newydd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor clir am ddarparu gwasanaethau eirioli gan ddefnyddio'r model newydd. Dylid rhoi'r cyngor hwn fel canllawiau statudol.**

**Model comisiynu rhanbarthol Llywodraeth Cymru**
Un o'r awgrymiadau a wnaeth y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru oedd y dylai gwasanaethau eirioli gael eu prynu gan uned annibynnol genedlaethol a fyddai'n gwneud yn siŵr eu bod ar gael i bobl leol. Dylai gwasanaethau eirioli arbenigol hefyd, fel ar gyfer pobl sy'n ceisio lloches ac nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, gael eu prynu gan yr uned genedlaethol. Roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn well prynu gwasanaethau fel hyn yn hytrach na gofyn i lywodraeth leol brynu'r gwasanaeth. Y rheswm am hyn yw y byddai angen i eiriolwyr, weithiau, siarad yn erbyn llywodraeth leol. Os byddai'r eiriolwyr yn cael eu talu gan lywodraeth leol, efallai y byddai'n anodd i'r plant a'r bobl ifanc gredu bod yr eiriolwyr yn siarad ar eu rhan hwy.

Cytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r eiriolwyr fod yn annibynnol ar lywodraeth leol, ond nid oedd yn cytuno mai uned gomisiynu genedlaethol oedd y ffordd orau o brynu gwasanaethau. Yn lle hynny, roedd yn teimlo y dylai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau i brynu gwasanaethau eirioli. Yr enw a roddwyd ar hyn oedd y model comisiynu rhanbarthol.

Roedd yn anodd i rai awdurdodau lleol sefydlu'r model comisiynu rhanbarthol. Roedd rhai wedi darparu gwasanaethau gwahanol i eraill yn y gorffennol felly roedd yn anodd iddynt weld beth y gallent ei ddarparu fel grŵp.

Roedd rhai o'r bobl oedd yn ceisio prynu gwasanaethau eirioli yn y ffordd newydd yn pryderu na fyddent yn gallu darparu gwasanaethau mor dda â'r hyn oedd yn cael ei ddarparu ganddynt cynt os oedd yn rhaid iddynt eu prynu yn y ffordd newydd.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu y byddai rhai plant a phobl ifanc yn cael gwasanaethau eirioli gwaeth os na fyddai'r model comisiynu rhanbarthol yn gweithio.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried y model comisiynu cenedlaethol yn hytrach na'r model comisiynu rhanbarthol. Fodd bynnag, ni ddylai Llywodraeth Cymru roi'r gorau i geisio cael y model rhanbarthol i weithio tra mae'n meddwl am y ffordd arall o brynu gwasanaethau eirioli.**

**Annibynniaeth darparwyr eiriolaeth**

Mae'r Pwyllgor yn pryderu na fydd plant a phobl ifanc yn ymddiried mewn gwasanaethau eirioli os nad ydynt yn annibynnol. Oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu prynu ar hyn o bryd, efallai bod rhai plant a phobl ifanc yn teimlo na fydd rhai eiriolwyr yn eu helpu i gwyno am awdurdodau lleol rhag ofn iddynt golli eu gwaith.

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn ymddiried yn eu heiriolwyr felly byddai'r Pwyllgor yn hoffi i lywodraeth leol

ofyn i blant a phobl ifanc a ydynt yn hapus gyda'r gwasanaethau a gaiff eu darparu ar eu cyfer.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod yn gofyn i blant a phobl ifanc pa mor dda a pha mor annibynnol yw'r gwasanaethau eirioli.**

**Gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy'n agored i niwed**
Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant sy'n agored i niwed. Mae plant sy'n agored i niwed yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a'r rhai sy'n gadael gofal.

Ond, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw rhai pobl yn siwr iawn pwy ddylai gael y gwasanaethau. Oherwydd hyn, efallai y caiff plant mewn un ardal gael gwybod na chânt eiriolwr ond y byddent yn cael un pe baent yn byw rywle arall.

Nid yw'r Pwyllgor yn credu fod hyn yn deg ac mae am i bob plentyn sy'n derbyn gofal a phob plentyn sydd wedi cael ei fabwysiadu gael eiriolwr os yw'n dymuno.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod pwy ddylai gael eiriolwr os yw am gael un.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod awdurdodau lleol sy'n gofalu am blant a phobl ifanc yn dweud wrth y plant a'r bobl ifanc hynny y gallant gael eiriolwr os ydynt am gael un.**

**Pwysau ariannol a'r effaith ar eiriolaeth i bawb**

Am fod llai o arian ar gael i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd, mae ganddynt lai o arian i'w wario ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Dywedodd rhai pobl wrth y Pwyllgor eu bod yn pryderu y gallai hyn olygu y byddai llai o blant a phobl ifanc yn cael eiriolwyr.

Bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed yn parhau i gael gwasanaethau eirioli am fod y gyfraith yn dweud fod yn rhaid iddynt ond mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd eraill yn cael gwybod na chânt eiriolwr.

Dywedodd rhai pobl wrth y Pwyllgor na fyddai'n ddrud i sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc eiriolwr yn mynd i fod yn ddrud os oedd am gael un. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru wrth y Pwyllgor y gallai athro, swyddog o'r heddlu neu unrhyw un fod yn eiriolwr'.

Ym mis Mawrth 2008, roedd y Pwyllgor wedi awgrymu wrth Lywodraeth Cymru y gallai rhai pobl sydd eisoes yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael eu hyfforddi i fod yn eiriolwyr hefyd. Roedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r

awgrym a bellach mae 22 o bobl yn cael eu hyfforddi i fod yn eiriolwyr. Ond nid yw Llywodraeth Cymru yn sicr a fydd digon o arian ar gael yn y dyfodol i hyfforddi mwy o bobl.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir o ran pa blant a phobl ifanc ddylai gael cynnig gwasanaethau eirioli, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru yn cael yr un math o wasanaeth.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, er mai gwasanaethau eirioli ar gyfer y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed sydd fwyaf pwysig.**

**Prynu heb gontract**

Mae prynu heb gontract yn digwydd pan fydd awdurdodau lleol yn talu am eiriolwr i weithio gyda phlentyn neu berson ifanc am gyfnod byr. Nid yw hyn yn beth da gan ei fod yn golygu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc gyfle i ddod i adnabod yr eiriolwr ac ni all gysylltu â'r eiriolwr yn y dyfodol os oes angen.

Mae prynu heb gontract yn digwydd pan na fydd gwasanaeth eirioli addas ar gael pan fydd ei angen ar blentyn neu berson ifanc. Dywedodd rhai pobl wrth y Pwyllgor ei bod yn rhatach prynu heb gontract, ac er bod

hyn yn gallu bod yn bwysig pan nad oes gan Lywodraeth Cymru a’r awdurdodau lleol gymaint o arian ag o’r blaen, nid yw hyn yn wasanaeth da ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen eiriolwr.

Bydd eiriolwyr da yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn eu helpu i fagu hyder a siarad drostynt eu hunain yn y dyfodol. Yr enw ar hyn yw hunan-eirioli. Yna, aiff rhai o’r plant a’r bobl ifanc yn eu blaenau i helpu plant a phobl ifanc eraill i ddweud eu dweud. Yr enw ar hyn yw eirioli ar ran cymheiriaid. Un o’r rhesymau pam nad yw prynu heb gontract yn dda i blant a phobl ifanc yw na all eiriolwyr a gaiff eu darparu fel hyn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn hunan-eiriolwyr nac yn eiriolwyr ar ran cymheiriaid.

Mae’r Pwyllgor yn credu mai dim ond mewn achosion anarferol y dylid prynu gwasanaethau eirioli heb gontract, pan nad yw’r gwasanaeth eirioli arferol yn gallu ymdopi. Un enghraifft fyddai plentyn yn ceisio lloches ac sydd angen eiriolwr sy’n siarad iaith wahanol.

**Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrth awdurdodau lleol nad yw prynu heb gontract yn dderbyniol ac mai dim ond ar achlysuron anarferol iawn y dylid gwneud hyn.**

**Wrth ystyried a fyddai model comisiynu cenedlaethol yn well na model rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru**

**ystyried hefyd a fyddai model comisiynu cenedlaethol yn atal yr angen i brynu heb gontract.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gefnogi hunan-eirioli ac eirioli ar ran cymheiriaid fel y gall plant a phobl ifanc ddysgu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt yn ystod eu hoes.**

**Arolygu a rheoleiddio**

Mae arolygu a rheoleiddio yn bwysig am eu bod yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithio'n dda.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y dylai gwasanaethau eirioli gael eu rheoleiddio a'u harolygu, ond nid yw'n siŵr pwy ddylai fod yn gofalu am y gwaith rheoleiddio ac arolygu.

Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru a'r awdurdodau lleol wrth y Pwyllgor y dylid cynnal arolygiadau fel rhan o arolygiadau gofal cymdeithasol ac addysg sydd eisoes yn digwydd. Dywedodd yr awdurdodau lleol bod llawer o arolygiadau yn digwydd eisoes ac y byddai'n gwneud synnwyr i gynnwys y gwasanaethau eirioli fel rhan o hynny.

Dywedodd Carol Floris, o Voices from Care, wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig i arolygwyr gofio y dylai eiriolwyr allu meithrin perthynas â'r plant a'r bobl ifanc er mwyn eu

helpu i ddysgu sgiliau hunan-eirioli ac eirioli ar ran cymheiriaid.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod arolygon yn cydnabod bod y berthynas sydd gan eiriolwyr â phlant a phobl ifanc yn un bwysig wrth feithrin sgiliau hunan-eirioli ac eirioli ar ran cymheiriaid. Dylai'r arolygwyr ofyn i blant a phobl ifanc beth yw eu barn am wasanaethau eirioli a'u profiadau ohonynt. Dylai'r arolygiadau gael eu harwain gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a dylai'r Arolygiaeth gydweithio ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**

## Y Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol a'r llinell gyngor - Meic

Cafodd y Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol a'r llinell gyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ei lansio ym mis Mai 2010 gan Lywodraeth Cymru. Yr enw ar y gwasanaeth yw 'Meic' ac mae ar agor saith niwrnod yr wythnos, 24 awr y dydd. Gall plant a phobl ifanc ffonio, anfon neges destun neu ddefnyddio negeseua gwib i gael cyngor a gofyn am eiriolwr.

Am nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod pa fath o wasanaethau eirioli sydd ar gael ym mhob rhan o Gymru, roedd rhai tystion yn pryderu na fyddai Meic yn gallu rhoi yr un math o wasanaeth i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn canfod pa fath o wasanaethau eirioli sydd ar gael i blant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Mae'r Pwyllgor yn credu mai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol ddylai wneud y gwaith hwn.**

## Y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol

Nid oedd rhai o'r bobl a siaradodd â'r Pwyllgor yn siŵr beth fyddai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn ei wneud a beth fyddai ei gyfrifoldebau, a beth fyddai uned eiriolaeth Llywodraeth Cymru yn ei wneud a beth fyddai ei chyfrifoldebau.

Dylai'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol sicrhau bod plant a phobl ifanc ym mhob rhan o Gymru yn cael gwasanaeth tebyg, ond dywedodd Voices from Care wrth y Pwyllgor y byddai'n anodd gwneud hynny gyda model comisiynu rhanbarthol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir beth fydd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn ei wneud a beth fydd ei gyfrifoldebau, a beth fydd uned eiriolaeth Llywodraeth Cymru yn ei wneud a beth fydd ei chyfrifoldebau.**

# Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees.htm

29 Mehefin 2010

**Llywodraeth Cymru:**
Huw Lewis AC, y Dirprwy Weinidog dros Blant
Elin Gwynedd, Pennaeth yr Uned Eiriolaeth
Suzanne Chisholm, Pennaeth y Gangen Hawliau

**Comisiynydd Plant Cymru:**
Comisiynydd Plant Cymru

**Plant yng Nghymru:**
Roger Bishop, Ymddiriedolwr Plant yng Nghymru
Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi

13 Mehefin 2010

**Voices from Care:**
Debbie Jones, Prif Swyddog Gweithredol
Carol Floris, Rheolwr Cefnogaeth a Chyngor

**Cymdeithas Swyddogion Cymorth y Partneriaethau Plant a Phobl ifanc:**

Phil Diamond, Cadeirydd Cymdeithas Swyddogion Cymorth y Partneriaethau

Helen Gregson-Holmes, Rheolwr Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy